PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Adroddiad Plant yng Nghymru i'r Aelodau 2022

## Effaith ac Etifeddiaeth COVID-19



# Cyflwyniad

Ffocws ein gwaith ymchwil oedd sicrhau cipolwg ar sut mae ein haelod-sefydliadau wedi ymateb i effeithiau COVID-19, a'u gallu i gynnal ymgysylltiad â phlant, pobl ifanc a theuluoedd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Gan adeiladu ar ganfyddiadau ein hastudiaeth flaenorol, a gynhaliwyd ym mis Mai 2020, roedden ni am sicrhau dealltwriaeth o'r dulliau a'r strategaethau a fabwysiadwyd ar hyd y pandemig, a sut mae defnyddwyr gwasanaeth wedi ymateb i wahanol dechnegau ymgysylltu, ac a oedd yn debygol o gael eu cadw i'r dyfodol. Roedden ni hefyd yn gobeithio cael cipolwg ar unrhyw heriau parhaus cysylltiedig ag effeithiau COVID-19 y mae ein haelod-sefydliadau yn eu hwynebu ar hyn o bryd, a sut gellid eu cefnogi'n well.

# Dulliau

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn dilyn ein harolwg aelodau yn 2020, a diben hynny oedd sicrhau cipolwg ar yr heriau uniongyrchol roedd ein haelod-sefydliadau yn eu hwynebu o ganlyniad i COVID-19, ac i gasglu eu mewnbwn er mwyn llywio ein blaenoriaethau a hefyd y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan arweinwyr llywodraeth a pholisi. Ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, fe wnaethon ni fabwysiadu dulliau gweithredu cymysg. Gan ddefnyddio platfform Microsoft Forms, o 24 Ionawr 2022, fe wnaethon ni gyflwyno arolwg i'n haelod-sefydliadau a'n cylch ehangach. Rhwng Chwefror a Mawrth 2022, fe wnaethon ni hefyd gynnal cyfweliadau un-i-un gyda chynrychiolwyr o groesdoriad o'n haelod-sefydliadau. O ganlyniad, roedd modd i ni gasglu adborth gan ein haelodau o'r arolwg a'r cyfweliadau ymchwil i lywio'r adroddiad hwn. Daw'r adroddiad hwn ar adeg pan fo teuluoedd yn wynebu caledi ariannol digynsail, gan y rhagwelir y bydd y codiad ym mhrisiau ynni a threthi yn golygu bod aelwydydd Cymru ar gyfartaledd £600 y flwyddyn yn waeth eu byd, hyd yn oed ar ôl cymhwyso mesurau i gynorthwyo gyda chostau byw (Prifysgol Caerdydd, 2022). Roedd yr aelodau'n awyddus i rannu gyda ni effaith yr argyfwng presennol ar eu defnyddwyr gwasanaeth a'u sefydliad, yn ogystal ag effeithiau'r pandemig.

# Hyrwyddo

Cafodd ein harolwg dwyieithog ei hyrwyddo trwy'r canlynol:

- E-friffiadau bob pythefnos
- E-bost penodol at y cysylltiadau yn ein cronfa ddata
- Adran newyddion ein gwefan
- Ein tudalennau ar Twitter

# Cwestiynau

Roedd cwestiynau'r arolwg fel a ganlyn

1. Beth fu prif effeithiau COVID-19 ar eich sefydliad?
2. Pa rwystrau cawsoch chi, fel sefydliad, eich gorfodi i'w goresgyn yn ystod y pandemig?

3. Beth yw prif bryderon eich sefydliad ar hyn o bryd o ran anghenion eich defnyddwyr gwasanaeth, eu llesiant a'u gallu i gael mynediad at wasanaethau?
4. Oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch eich sefydliad neu eich gwasanaeth, neu lesiant eich staff?
5. Pa ddulliau/strategaeth gwnaeth eich sefydliad eu mabwysiadu er mwyn ymdopi â'r heriau newydd a ddaeth yn sgîl COVID-19, i sicrhau eich bod yn gallu cynnal ymgysylltiad â phlant, pobl ifanc a theuluoedd
6. Pa rai o'r dulliau/strategaethau hyn, os o gwbl, bydd eich sefydliad yn parhau i'w defnyddio yn ddull rheolaidd o gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd yn y dyfodol?
7. A brofwyd unrhyw rai o'r dulliau/strategaethau hyn, ond cael nad oeddent yn ddefnyddiol/effeithiol o ran cefnogi plant/pobl ifanc/teuluoedd, a pham?
8. A dderbyniodd eich sefydliad unrhyw gymorth ariannol ychwanegol i helpu i ymdopi ag unrhyw heriau newydd a ddaeth i'w ran yn ystod y pandemig?
9. Er gwaethaf ei holl heriau, oedd y pandemig yn caniatáu unrhyw gyfleoedd i ddysgu (er enghraifft, oedd modd i chi fel sefydliad gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn ffordd fwy personol unwaith y bu'n rhaid i'r rhyngweithio â defnyddwyr gwasanaeth wyneb yn wyneb ddod i ben, neu gael ei leihau oherwydd cyfyngiadau COVID, neu a ddaethoch efallai yn ymwybodol o anghenion oedd eisoes yn bodoli gan eich defnyddwyr gwasanaeth, nad oeddech chi'n ymwybodol ohonynt o'r blaen)?
10. Ydych chi'n dal i wynebu heriau/rhwystrau fel sefydliad yng nghyswllt effeithiau COVID-19, y gallech dderbyn cefnogaeth well ar eu cyfer?
11. Wrth i 2022 gychwyn, beth yw'r prif faterion sy'n destun pryder i chi?

I gadw ein cyfweliadau ymchwil mor gryno â phosibl, fe wnaethon ni ofyn detholiad o'r cwestiynau o'r arolwg ar-lein i'n cyfweleion.

1. Beth fu prif effeithiau COVID-19 ar eich sefydliad? (rhai negyddol a chadarnhaol)
2. Beth yw prif bryderon eich sefydliad ar hyn o bryd o ran anghenion eich defnyddwyr gwasanaeth, eu llesiant a'u gallu i gael mynediad at wasanaethau?
3. Pa ddulliau/strategaethau gwnaeth eich sefydliad eu mabwysiadu er mwyn ymdopi â'r heriau newydd a ddaeth yn sgîl COVID-19, i sicrhau eich bod yn gallu cynnal ymgysylltiad â phlant, pobl ifanc a theuluoedd?
4. Pa rai o'r dulliau/strategaethau hyn y cafwyd eu bod yn fwyaf ac yn lleiaf defnyddiol, a pha rai rydych chi'n debygol o'u cadw wrth i ni lacio'r cyfyngiadau COVID yn raddol?
5. Oes yna unrhyw beth arall hoffech chi ychwanegu?

# Ymatebion

Gallai'r ymatebwyr ddewis darparu enw eu sefydliad neu barhau'n ddienw. Fodd bynnag, roedd gofyn eu bod yn darparu'r math o sefydliad neu sector roedden nhw'n gweithio ynddo (megis Awdurdod Lleol, sector iechyd, gwasanaethau teulu, trydydd sector, gwasanaethau ieuenctid neu ysgolion/addysg) a'r ardal awdurdod lleol roedden nhw'n gweithio ynddo. Roedd hanner y cwestiynau a ofynnwyd yn rhai amlddewis.

O'r ymatebwyr a ddewisodd ddarparu enw eu sefydliad, cawson ni ymatebion gan y canlynol:

NYAS Cymru

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

EAGALA

Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

TGP Cymru

Barnardo’s Cymru

Ffydd mewn Teuluoedd

Llamau

Blynyddoedd Cynnar Cymru

Ysgol Gyfun Gwynllyw

Achub y Plant

Homestart Cymru

Mudiad Meithrin

Hoffai Plant yng Nghymru ddiolch i’n holl ymatebwyr am roi o’u hamser i gwblhau’r arolwg hwn, a hefyd i’r rhai a gytunodd i gymryd rhan yn ein cyfweliadau.

# Ymchwil Gefndir

Er bod corff cynyddol o lenyddiaeth ynghylch effeithiau COVID-19 ar blant, pobl ifanc a theuluoedd, mae pryder cyffredinol na welir effaith lawn byw o dan glo a’r pandemig yn fwy cyffredinol am beth amser. Er gwaethaf unrhyw oedi, ar sail yr wybodaeth gwnaethon ni ei chasglu gan ein haelod-sefydliadau, roedd llawer eisoes wedi gweld cynnydd yng nghyfraddau tlodi, amddifadedd, iechyd meddwl yn gwaethygu ac oedi yn natblygiad plant ymhlith eu defnyddwyr gwasanaeth ac ar draws y sector. Gwaethygwyd y materion hyn ymhellach gan yr ‘argyfwng costau byw’ presennol, gyda’r cynnydd ym mhrisiau bwyd a thanwydd, ac eitemau pob dydd hanfodol, yn ychwanegu ato.

Ym mis Mai 2022, cyrhaeddodd chwyddiant yn y Deyrnas Unedig ei lefel uchaf ers tri degawd, gan gyrraedd 6.2%, sy’n uwch na’r 5.9% a ragfynegwyd gan economyddion (Guardian, 2022). Roedd hyn yn dilyn y cynnydd diweddaraf mewn prisiau ynni, a ychwanegodd £13.24 “poenus” yr wythnos, neu bron £700 y flwyddyn at fil aelwyd nodweddiadol, cynnydd a fydd yn rhoi aelwydydd incwm isel sydd eisoes yn dioddef costau bwyd a rhent cynyddol o dan bwysau difrifol (Sefydliad Bevan, 2022). Effeithiwyd yn anghymesur ar gymunedau tlotaf Cymru, a nhw “drawyd waethaf” gan bandemig COVID-19 (Ymchwil y Senedd, 2022), ac mae gwarant y bydd caledi ariannol yn dwysáu wrth i chwyddiant godi.

Mae’r adroddiad hwn hefyd yn cyd-ddigwydd â Datganiad Gwanwyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn ôl dadansoddiad Canolfan Llywodraethu Cymru Prifysgol Caerdydd, methodd Datganiad y Gwanwyn â darparu cymorth wedi’i dargedu ar gyfer yr aelwydydd a drawyd waethaf nac i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rhag y cynnydd mewn chwyddiant (Canolfan Llywodraethu Cymru, 2022). Wrth wneud ein gwaith ymchwil, amlygwyd caledi ariannol teuluoedd fel un o brif bryderon ein haelod-sefydliadau ar hyn o bryd, ac adroddwyd bod nifer cynyddol o deuluoedd yn methu ymdopi’n ariannol, a bod cynnydd yn swm y dyledion a wynebir.

Canfu ymchwil a gyhoeddwyd gan Sefydliad Bevan fod aelwydydd ar draws Cymru, yn gyffredinol, wedi gweld eu costau byw yn codi, gyda mwy na hanner yn gweld cost bwyd yn codi a mwy na chwech o bob deg yn gweld cost eu cyfleustodau yn codi. Mae safon byw teuluoedd yng Nghymru yn gostwng yn ddifrifol, ac mae wedi parhau i wneud hynny ers dechrau’r pandemig. Mae un o bob deg teulu sydd â dau o blant wedi gorfod torri’n ôl ar fwyd i’w plant, ac mae bron pedwar o bob deg aelwyd yng Nghymru (39 y cant) heb ddigon o arian i brynu unrhyw beth heblaw eitemau pob dydd (Sefydliad Bevan, 2021).

Mae gwaith ymchwil arall wedi archwilio effaith COVID ar brofiadau addysgol plant. Bu Thorn & Vincent-Lancrin (2022) yn archwilio natur profiad addysgol myfyrwyr addysg cynradd ac uwchradd yn Ffrainc, Iwerddon, y Deyrnas Unedig a’r Unol Daleithiau yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau, ac effaith cau ysgolion ar ddysgu’r myfyrwyr, gan nodi bod pryderon ynghylch myfyrwyr o gefndir sosio-economaidd is yn cael eu gadael ar ôl yn “fwy na rhesymol”.

Ategir y canfyddiadau hyn gan Reimers (2022). Maen nhw’n nodi effeithiau tlodi ac anghydraddoldeb cymdeithasol ar brofiadau addysgol plant a phobl ifanc ar hyd y pandemig. Fodd bynnag, maen nhw hefyd yn pwysleisio bod rhwystrau i gyfleoedd

addysgol, megis tlodi bwyd a straen byw mewn amodau bregus, eisoes yn effeithio ar gyfleoedd i ddysgu cyn y pandemig, a bod COVID-19 wedi galluogi'r rhwystrau hyn i ddod yn fwy gweladwy.

Mae pwysigrwydd yr ysgol yn mynd y tu hwnt i addysg. Mae ysgolion hefyd yn ffynhonnell hanfodol o gefnogaeth iechyd a iechyd meddwl, sy'n ffactorau amddiffynnol ar gyfer llesiant cymdeithasol, emosiynol a chorfforol y myfyrwyr (Academïau Cenedlaethol y Gwyddorau, Peirianneg a Meddygaeth, 2019, c.f. Hoffman & Miller, 2020). Fel y dangosir yn ein canfyddiadau, roedd ein haelod-sefydliadau yn rhannu pryderon cyffredinol ynghylch iechyd meddwl plant a phobl ifanc, y mae'r pandemig a chyfnodau clo lluosog wedi effeithio arno mewn ffyrdd digynsail.

Bu Loades et al. (2020) yn adolygu effaith ynysu cymdeithasol ac unigrwydd ar iechyd meddwl plant yng nghyd-destun COVID-19. Maen nhw'n dadlau bod y ffactorau sy'n debygol o gynyddu risg canlyniadau seicolegol negyddol yn cynnwys hyd y cyfnod cwarantîn, ofn heintio, diflastod, rhwystredigaeth, diffyg cyflenwadau angenrheidiol, diffyg gwybodaeth, colled ariannol, a stigma. Maen nhw'n dadlau y gallai "cadw pellter cymdeithasol a chau ysgolion, o ganlyniad, gynyddu problemau iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc, sydd eisoes yn wynebu risg uwch o ddatblygu problemau iechyd meddwl o gymharu ag oedolion". Yn wir, mae anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn mynd i fod "yn fwy aciwt fyth yn sgîl y pandemig o ystyried y straen cymdeithasol, emosiynol ac economaidd sy'n cyd-ddigwydd ac yn debygol o barhau am gryn amser wedi i'r argyfwng gael ei ddatrys" (Hoffman & Miller 2020).

Mae corff cynyddol o lenyddiaeth sy'n ymwneud ag effeithiau COVID-19 ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Rhwng Medi 2020 a Chwefror 2021, cynhaliodd James et al. (2021) arolwg o fwy na 6,000 o bobl ifanc 8-25 oed yng Nghymru. Bu eu hastudiaeth yn archwilio ffactorau sy'n hybu neu'n cynnal llesiant pobl ifanc yn ystod y pandemig, a sut mae'r ffactorau hynny'n amrywio yn ôl oed. Fe ganfuon nhw fod adroddiadau personol ynghylch llesiant yn amrywio yn ôl rhywedd, ethnigrwydd ac amddifadedd. Ymhellach, soniodd plant iau am yr angen i chwarae a gweld ffrindiau i gynnal eu llesiant eu hunain, tra bod plant hŷn am gael mwy o gefnogaeth gyda gorbryder a phwysau addysgol yr adroddwyd amdanynt.

Yn yr un modd, yn 2020 cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru adroddiad 'Coronafeirws a Fi', oedd yn amlinellu canfyddiadau'r ymgynghoriad a lansiwyd i ddysgu am brofiadau uniongyrchol plant yng Nghymru. Roedd eu pryderon yn cynnwys poeni ynghylch pa mor hir byddai'r sefyllfa'n parhau ac ofnau y bydden nhw neu eu hanwyliaid yn dal COVID-19. Ymhellach, soniodd pobl ifanc oed ysgol uwchradd am fwy o deimladau negyddol na phlant iau, gydag 16% yn teimlo'n drist 'y rhan fwyaf o'r amser'. Soniodd 54% o'r bobl ifanc 12-18 eu bod yn pryderu ynghylch colli tir yn eu dysgu, ac adroddodd 52% eu bod yn pryderu ynghylch sut byddai'r pandemig yn effeithio ar eu canlyniadau arholiad (Comisiynydd Plant Cymru, 2020).

Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r heriau a ddaeth ac sy'n dal i ddod yn sgîl COVID-19 wedi effeithio ar bob plentyn yn yr un ffordd. Mae anghysondebau yn sut mae'r pandemig wedi effeithio ar blant o wahanol grwpiau oed, o ran graddfeydd emosiynol, ymddygiad, ariannol a datblygiadol. Er enghraifft, ffocws un o'n haelod-sefydliadau yw datblygiad plentyn ac yn benodol sut mae tlodi yn effeithio ar ddatblygiad plant, gan achosi oedi, yn arbennig yn eu blynyddoedd mwyaf ffurfiannol. Maen nhw'n clywed gan ysgolion bod amharu difrifol wedi digwydd ar sgiliau cymdeithasol a iaith llawer o'u disgyblion ifancaf yn y derbyn o ganlyniad i golli dwy flynedd arwyddocaol iawn yn eu datblygiad. Fe sonion nhw am lawer o blant sydd heb gael hyfforddiant poti, sy'n dal i ddefnyddio dymi, sydd ddim yn rhyngweithio'n dda â phlant eraill, ac sy'n cael anhawster ymateb i ffiniau.

Mae hyn yn cyfateb i waith ymchwil a wnaed gan Tyrie et al. (2021), oedd yn canolbwyntio ar ffyrdd o nodi effaith COVID-19 ar blant o dan 5, ymdrin â hynny, neu ei lliniaru. Daw arbenigwyr i'r casgliad mai rhai grwpiau demograffig fyddai'n dioddef yr effaith negyddol fwyaf yn sgîl pandemig COVID-19, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a phlant o deuluoedd incwm isel. Yn y cyfamser, roedden nhw hefyd yn credu mai datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant o dan 5 fyddai'n dioddef yr effaith negyddol fwyaf yn sgîl COVID-19, gyda datblygiad iaith a lleferydd, datblygiad corfforol, iechyd, ac yn olaf datblygiad gwybyddol yn dilyn.

Yn olaf, mae ymchwil hefyd wedi dangos bod llawer o leoliadau addysg a gofal plentyndod cynnar wedi sôn am gael trafferth ymdopi â dichonoldeb a staffio yn ystod y pandemig ac yn ei sgîl (Ofsted, 2020; Hunnikin et al, 2020, Tyrie et al., 2021). Roedd hon hefyd yn thema gyson y soniwyd amdani gan ein haelod-sefydliadau. Roedd llawer yn hawlio bod eu sector yn wynebu anawsterau cysylltiedig â recriwtio, gyda llawer yn cael trafferth llenwi swyddi gwag, yn rhannol oherwydd tirlun newidiol cyflogaeth o ganlyniad i'r pandemig.

# Canfyddiadau

## Cwestiwn 1) Beth fu prif effeithiau COVID-19 ar eich sefydliad?




Adroddodd mwy na hanner y rhai a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi gweld **cynnydd yn yr atgyfeiriadau** i'w sefydliad, gydag un sefydliad yn unig yn dweud eu bod wedi gweld gostyngiad. Adroddodd mwyafrif llethol yr ymatebwyr fod eu sefydliadau'n wynebu anawsterau o ran **cadw i fyny â llwyth gwaith cynyddol a mwy o alw am eu gwasanaethau**, gydag un ymatebydd yn dweud eu bod wedi gweld cynnydd o 50-60% yn y galw am rai o'u gwasanaethau, a chynnydd o fwy na 120% yn y galw am un o'u gwasanaethau cymorth i deuluoedd. At ei gilydd, roedd ychydig dan hanner yr holl ymatebwyr yn honni eu bod yn **cael trafferth ymateb i'r galw cynyddo**l gan blant, pobl ifanc a theuluoedd oherwydd yr heriau unigryw, digynsail a ddaeth yn sgîl COVID-19.

Ymhlith yr heriau yr adroddodd yr ymatebwyr fod eu sefydliadau wedi'u hwynebu roedd cynnal ymgysylltiad â phlant, **pobl ifanc a theuluoedd**, gyda'r mwyafrif llethol yn adrodd eu bod wedi profi anallu i gynnal ymgysylltiad yn llawn trwy ffyrdd blaenorol o weithio. Dywedodd un ymatebydd o'r sector gofal plant wrthyn ni fod rhai o'u gwasanaethau, gwaetha'r modd, wedi colli eu perthynas â rhai plant a theuluoedd yn llwyr. Roedd eraill wedi parhau i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth gan fod llawer yn **ffafrio gweithio ar-lein ac o bell**, yn enwedig os oedden nhw'n brin o hyder ynghylch derbyn cefnogaeth neu os oedd ganddyn nhw blant gartref.

Dywedodd yr ymatebwyr wrthyn ni hefyd eu bod yn pryderu'n arbennig am gynnal ymgysylltiad â **phlant a phobl ifanc mewn cartrefi afiach**, **anniogel**, y barnwyd eu bod eisoes yn wynebu argyfwng. Ymhlith y rhwystrau eraill i ymgysylltiad roedd **mynediad anghyson at dechnoleg, diffyg ymgysylltiad gan rai aelwydydd** a defnyddwyr gwasanaeth eraill; **cyfyngiadau ariannol, a chynnydd sylweddol yn y llwyth gwaith.**

Roedd yr anawsterau i gynnal ymgysylltiad â rhai defnyddwyr gwasanaeth nid yn unig yn her i'n haelod-sefydliadau o ran darparu cefnogaeth, ond hefyd yn codi pryderon ynghylch sut roedd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ymdopi pan nad oedden nhw'n gallu cwrdd â nhw'n gorfforol wyneb yn wyneb. Bu'r rhai sy'n gweithio yn y sector addysg yn mynegi pryderon a brofwyd ganddynt yn ystod cyfnodau clo pan oedden nhw'n **gorfforol yn methu gweld plant a monitro'u hiechyd a'u llesiant**, gan arwain at gynnydd mewn pryderon diogelwch, yn arbennig os oedd rhieni'n datgysylltu neu ddim yn cael mynediad at gefnogaeth.

Mynegodd ymatebwyr o sectorau eraill bryderon tebyg, gydag un cyfwelai yn esbonio, er eu bod yn cynnal ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc trwy blatfformau cyfarfodydd rhithwir megis Zoom, ei fod yn anodd sicrhau darlun llawn o ran sut roedden nhw'n ymdopi. Nid yn unig roedden nhw'n methu gweld beth oedd yn digwydd tu allan i gwmpas y sgrîn, ond roedd anawsterau o ran **cyfrinachedd** hefyd, ac roedden nhw'n methu gwybod pwy arall allai fod yn yr ystafell neu'n gwrando. Esboniodd yr ymatebwyr fod angen iddyn nhw eu gweld, ar adegau pan oedden nhw'n pryderu'n arbennig ynghylch diogelwch plentyn, er gwaethaf cyfyngiadau'r cyfnod clo, er mwyn cynnal asesiad risg.

Roedd **iechyd meddwl y staff** yn thema barhaus gan ein hymatebwyr. Adroddodd dros hanner yr holl ymatebwyr fod eu sefydliadau'n wynebu anawsterau o ran iechyd meddwl y staff, megis cynnydd sylweddol mewn lefelau straen. Ochr yn ochr â hynny, dywedodd ychydig dan hanner yr holl ymatebwyr wrthyn ni fod eu sefydliad yn cael trafferthion **prinder staff** am resymau fel **colli swyddi** neu salwch cysylltiedig â COVID-19, ac absenoldebau o'r gwaith. Dywedodd un ymatebydd fod

**"Y pandemig wedi cyflwyno llu o heriau i'n tîm. Mae wedi bod yn anodd cynnal morâl y tîm yn rhithwir, heb sôn am fedru cynnig cefnogaeth/empathi i'r holl [blant a phobl ifanc] rydyn ni'n gweithio gyda nhw mewn modd rhithwir"**

Dywedodd un arall wrthyn ni

**“Mae iechyd meddwl ein staff ninnau wedi dirywio ar brydiau, yn enwedig pan fu lefel uchel o gyfyngiadau neu pan oedden nhw’n cael trafferth ymdopi â’n llwyth gwaith a chapasiti cyfyngedig… Mae morâl yn y sector yn eitha isel, ac rydyn ni’n gweld argyfwng recriwtio’n datblygu lle rydyn ni wedi colli llawer o staff cymwysedig o’r sector oherwydd eu bod wedi cael eu dadrithio (gan y cyflog /llwyth gwaith/deimladau o fod yn ddiwerth/weithio gartref a phryder ynghylch y dyfodol)”**

Mae’r pryderon hyn yn adleisio’r hyn glywson ni trwy ein cyfweliadau, gyda **niferoedd aruthrol o’r cyfweleion yn mynegi pryder ynghylch iechyd meddwl eu staff a’u cydweithwyr**. Adroddodd y cyfweleion yn gyffredinol **fod ffyrdd newydd o weithio o bell ar hyd y pandemig wedi arwain at ddirywiad mewn iechyd meddwl a llesiant** a theimladau o fod yn **unig ac yn ynysig** ymhlith aelodau staff, yn arbennig yn achos unigolion oedd yn byw ar eu pennau eu hunain neu aelodau staff oedd fel arfer yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth bob dydd cyn y pandemig. Esboniodd un cyfwelai hefyd mai un o effeithiau pennaf COVID-19 ar lesiant eu staff oedd **oriau gwaith hwy**, gyda’r llinellau rhwng gwaith a bywyd cartref yn mynd yn aneglur oherwydd bod plant a rhieni’n gallu cysylltu â staff tu allan i’r oriau gwaith arferol.

Soniodd nifer o’n cyfweleion am broblem **recriwtio** fel rhywbeth arall oedd yn cael effaith fawr ar eu sefydliadau. Dywedodd un cyfwelai wrthyn ni, er enghraifft, fod recriwtio yn dal yn broblem fawr iddyn nhw ar hyn o bryd, bod ganddyn nhw nifer o swyddi gwag sydd heb eu llenwi eto, a bod hynny wedi creu llwyth gwaith trymach i’w cyflogeion presennol. Esboniodd y cyfranogwyr mai’r rheswm am hyn yw tirlun newidiol cyflogaeth, a bod y pandemig wedi arwain at lawer o aelodau staff naill ai’n ailwerthuso eu dewisiadau bywyd, neu’n cwestiynu ai dyma’r math o waith roedden nhw am ei wneud. Mewn achosion eraill mae staff wedi ailhyfforddi, wedi cychwyn eu busnes eu hunain, neu wedi ymddeol yn gynnar.

Adroddodd sawl ymatebydd hefyd eu bod wedi **teimlo effaith ariannol sylweddol** ar hyd y pandemig. Esboniodd un ymatebydd y mae gan ei sefydliad dros 700 o siopau manwerthu effaith hynny ar gronfeydd y sefydliad. Gan fod manwerthu nad oedd yn hanfodol wedi gorfod cau yn ystod y cyfnodau clo, cafodd hynny effaith sylweddol ar adnoddau ariannol y sefydliad, ac mae wedi golygu bod y sefydliad yn wynebu cyfyngiadau sylweddol.

Mae’n bwysig amlygu rhai canlyniadau cadarnhaol y soniodd yr ymatebwyr amdanynt. Adroddodd sawl un fod eu **perthynas gyda Llywodraeth Cymru wedi dod yn llawer agosach** ers dechrau’r pandemig. Adroddodd eraill fod y pandemig wedi bod yn **gyfle i feithrin perthynas gryfach gyda sefydliadau eraill yn eu sector**, a chyfleoedd i weithio ar y cyd a datblygu partneriaethau newydd. Ar ben hynny, dywedodd un ymatebydd o’r sector gofal plant wrthyn ni, gan fod eu cyfleusterau gofal plant wedi parhau ar agor i weithwyr allweddol, fod **staff y feithrinfa’n dweud bod gwybod eu bod yn cefnogi gweithwyr allweddol fel hyn yn teimlo’n dda**, ac roedd y rhieni’n ddiolchgar bod eu plant yn gallu parhau i fynd i’r feithrinfa tra’u bod nhw’n gweithio ar y rheng flaen.

Roedd ffyrdd newydd o weithio o bell, yn ogystal â chwrdd yn rhithwir neu fynychu cyrsiau hyfforddi gan ddefnyddio platfformau ar-lein, yn caniatáu ar gyfer **lleihau teithio yn sylweddol**, defnyddio amser yn fwy effeithlon, a chaniatáu i staff **leihau eu hôl troed carbon**. Yn yr un modd, adroddodd yr ymatebwyr am ostyngiad sylweddol yn yr adnoddau printiedig roedden nhw’n eu cynhyrchu, a bod y rhain yn awr wedi cael eu darparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth mewn fformat ar-lein, sy’n enghraifft arall o **ffyrdd mwy cynaliadwy ac eco-gyfeillgar o weithio**.

## Cwestiwn 2) Pa rwystrau cawsoch chi, fel sefydliad, eich gorfodi i’w goresgyn yn ystod y pandemig?

Y brif her i’r ymatebwyr oedd **pontio i weithio o bell gartref** yn unol â chanllawiau COVID-19. Y flaenoriaeth gyntaf oedd sicrhau bod y staff yn gweithio gartref ar unwaith ac yn ddiogel, gan gynnwys sicrhau bod gan bawb y cyfarpar angenrheidiol i weithio’n effeithiol. Dywedodd yr ymatebwyr wrthyn ni, er bod y staff yn gweithio’n ddiflino i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn parhau i gael eu cefnogi ar hyd y pandemig, arweiniodd ffyrdd newydd o weithio a methu â chwrdd â defnyddwyr gwasanaeth wyneb yn wyneb at lawer o heriau a phryderon ychwanegol eraill.

Fel y soniwyd eisoes, adroddodd yr ymatebwyr fod **iechyd meddwl a llesiant staff** wedi dioddef yn fawr o ganlyniad i weithio o bell. Nid gweithio o bell am gyfnodau estynedig yn unig oedd yn gyfrifol am hynny, ond hefyd deimladau o ddiymadferthedd, yn ogystal ag **unigrwydd a bod yn ynysig**. Gallai'r staff weld yr effaith ariannol a seicolegol roedd y pandemig yn ei chael ar deuluoedd, ac roedd hynny ynddo'i hun yn cael **effaith emosiynol ar y staff**. O ystyried natur y gwasanaethau mae ein haelod-sefydliadau yn eu darparu, effeithiodd dulliau gwaith rhithwir ac o bell hefyd ar sut roedd ein haelodau'n gallu cyfathrebu a chefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd.

Un rhwystr arbennig oedd y **diffyg adnoddau TG i'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd** mae ein haelod-sefydliadau yn eu cefnogi. Roedd cefnogi eu defnyddwyr gwasanaeth yn rhithwir yn bosibl dim ond os oedd gan eu defnyddwyr gwasanaeth fynediad at y dechnoleg gywir. Adroddodd yr ymatebwyr fod **mynediad cyfyngedig at dechnoleg, heriau band eang, methu fforddio ychwanegu at becynnau ffonau symudol**, ac anawsterau wrth gael mynediad at gefnogaeth trwy ddulliau cyfathrebu rhithwir wedi cael effaith ddifrifol ar **iechyd meddwl plant, pobl ifanc a theuluoedd**.

Adroddodd yr ymatebwyr hefyd fod hyn yn achosi heriau unigryw, gan fod **meithrin perthynas gyda defnyddwyr gwasanaeth newydd yn anoddach** oherwydd eu bod yn methu cwrdd wyneb yn wyneb, ac felly roedd yn cymryd cyfnod hwy i'r staff ddatblygu cysylltiad ac ymddiriedaeth. Roedd hyn yn achosi heriau pellach i'n haelodau sy'n gweithio'n benodol gyda **ffoaduriaid a cheiswyr lloches nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt**. Fe sonion nhw ei fod yn arbennig o anodd cynnal asesiadau risg yn rhithwir pan fyddai rhwystrau iaith. Mae'r heriau hyn yn dangos sut cafodd **anghydraddoldeb oedd eisoes yn bodoli ei waethygu gan y pandemig** yn achos llawer o bobl.

Roedd **iechyd meddwl a llesiant defnyddwyr gwasanaeth** yn her arall bwysig yr oedd rhaid i'n haelod-sefydliadau helpu i ymdrin â hi. Roedd defnyddwyr gwasanaeth yn sôn am gynnydd mewn **gorbryder ac anawsterau iechyd meddwl eraill**. Fodd bynnag, roedd rhai defnyddwyr gwasanaeth, megis y rhai â iechyd meddwl gwael, yn aml yn ffafrio cyrchu gwasanaethau cymorth o'u cartref. Dywedodd un ymatebydd wrthyn ni fod defnyddwyr gwasanaeth oedd wedi profi cam-drin domestig yn profi trawma ychwanegol trwy fod mewn amgylchedd rheoledig, oedd yn gweithredu fel sbardun amlwg iddyn nhw. Soniodd un arall eu bod wedi gweld llawer o bobl ifanc, a benywod ifanc yn arbennig, oedd wedi dechrau hunan-niweidio a meddwl am hunanladdiad yn eu llety â chymorth.

Dywedodd sawl ymatebydd wrthyn ni hefyd eu bod wedi gweld **'loteri côd post' o ran argaeledd a hygyrchedd cefnogaeth iechyd meddwl allanol**. Roedd materion ynghylch **diogelu a chynnal asesiadau risg** hefyd yn rhwystr sylweddol yr oedd ein haelodau'n ei wynebu. Yn achos un ymatebydd o'r sector addysg, roedd hyn yn arbennig o anodd mewn sefyllfaoedd lle roedden nhw'n cael trafferth cynnal cyfathrebu clir â theuluoedd.

Un mater arall y soniwyd amdano gan rai, ond nid y cyfan o'r ymatebwyr, oedd gorfod **ymdopi â gwahanol ddulliau gweithredu'r llywodraethau ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig**. Yn achos ein haelodau sy'n gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig gyfan, roedd dryswch yn aml ynghylch newidiadau polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig; beth oedd yn cael ei ganiatáu a beth oedd ddim.

Yn olaf, nododd nifer o'n hymatebwyr rwystr pwysig arall oherwydd bod gwasanaethau allanol eraill, y bydden nhw fel arfer yn cyfeirio unigolion atynt, ddim ar gael fel o'r blaen oherwydd eu bod wedi cau dros dro neu heb fod yn gweithredu yn ôl yr arfer. Roedd hyn wedi golygu bod rhaid i'n haelodau gefnogi'r unigolion hyn eu hunain, ac mae hynny eto wedi arwain at gynnydd yn y llwyth gwaith i'r staff. Yn achos un o'n haelod-sefydliadau, roedden nhw mewn sefyllfa lle roedden nhw'n **derbyn gwaith ychwanegol er mwyn lliniaru'r straen ar sefydliadau partner**. O ganlyniad roedden nhw'n delio â llawer o faterion a fyddai fel arall wedi cael eu hatgyfeirio i fannau eraill, ond oedd bellach yn derbyn sylw gan eu hymarferwyr eu hunain oherwydd bod gwasanaethau eraill yn syml **yn methu ymdopi â'r galw ychwanegol a'r heriau cysylltiedig**.

## Cwestiwn 3) Beth yw prif bryderon eich sefydliad ar hyn o bryd o ran anghenion eich defnyddwyr gwasanaeth, eu llesiant a'u gallu i gael mynediad at wasanaethau?

Mae prif bryderon ein haelodau yn ymwneud â **iechyd meddwl a llesiant eu defnyddwyr gwasanaeth a'r caledi ariannol cynyddol** mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ei wynebu.




Wrth bwyso a mesur, er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar effeithiau COVID-19 ar ein haelod-sefydliadau, mae'r gwaith ymchwil hwn wedi caniatáu i ni gael cipolwg defnyddiol ar sut mae ein haelodau a'u defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo am **argyfwng parhaus costau byw**.

Mynegodd dros hanner yr ymatebwyr bryder ynghylch **caledi ariannol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd** (er enghraifft llai o incwm, tlodi bwyd, fforddio gwisg ysgol, eitemau hanfodol a thalu biliau'r aelwyd). Mae'r aelodau hefyd yn pryderu fwyfwy ynghylch y **galw bythol-gynyddol am eu gwasanaethau a difrifoldeb yr angen cysylltiedig ag atgyfeiriadau**. Ar ben hynny, mynegodd ein haelodau bryder ynghylch eu **capasiti i ymdopi** â'r elfennau cynyddol hyn, ynghyd â **lludded staff a'r ffaith eu bod wedi llosgi allan** ar ôl dwy flynedd a fu yn anhygoel o anodd.

Mae'r ymatebion i'n harolwg yn dweud wrthyn ni fod y mwyafrif llethol wedi sôn bod eu sefydliadau'n pryderu am ddirywiad yn iechyd meddwl a llesiant eu defnyddwyr gwasanaeth o ganlyniad i'r pandemig, gyda mwy na hanner yr ymatebwyr hefyd yn mynegi pryder ynghylch **gallu** eu defnyddwyr gwasanaeth **i gael mynediad i'r gwasanaethau iechyd meddwl angenrheidiol**. Amlygodd nifer o'n haelodau **bryderon ynghylch y pethau bydd llawer o blant a phobl ifanc wedi tystio iddyn nhw yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf**, yn arbennig o ganlyniad i dreulio cyfnodau estynedig gartref, yn enwedig os oeddent yn dod o gartref treisgar lle mae cam-drin domestig yn amlwg. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn pryderu ynghylch straen, pryderon a dirywiad yn iechyd meddwl rhieni/aelodau o'r teulu o ganlyniad i COVID-19. Dywedodd un ymatebydd

**"O ganolbwyntio ar y sector rydyn ni'n ei gefnogi yn unig (gofal plant tu allan i'r ysgol) mae ein prif bryderon yn ymwneud â iechyd meddwl, gan y bydd angen i'r staff sy'n gweithio yn y sector feddu ar yr adnoddau, yr wybodaeth a'r gallu i gyfeirio ymlaen, i fedru adnabod a diwallu anghenion y plant yn eu gofal a'u teuluoedd"**

Dywedodd ymatebydd sy'n gweithio yn y sector addysg wrthyn ni mai un o'r problemau pennaf i fyfyrwyr yw **gorbryder**, yn enwedig oherwydd yr amharu ar eu haddysg. Doedd llawer a fu'n dioddef gyda'u hiechyd meddwl **ddim am ddychwelyd i'r ysgol** wedi i'r cyfyngiadau lacio ac i'r ysgolion ailagor. Er bod gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol ar gael yn amlach oherwydd cynnydd sylweddol yn y galw, gyda mwy o ddisgyblion yn atgyfeirio'u hunain ar gyfer cefnogaeth iechyd meddwl, **mae'n nodweddiadol bod rhestrau aros hir ar gyfer gwasanaethau cwnsela**. Roedd athrawon yn rhoi lles meddyliol ac emosiynol y myfyrwyr yn gyntaf, oherwydd os yw plant yn cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl a'u llesiant, bydd hynny'n effeithio ar eu haddysg.

Mynegodd ymatebwyr eraill bryder hefyd ynghylch nifer y **plant a'r bobl ifanc oedd ddim yn mynd i'r ysgol**, yn dewis cadw draw o amgylchedd yr ysgol, ac o bosib yn cael eu haddysgu gartref neu'n cael mynediad i ddysgu o bell. Gallai hyn fod o ganlyniad i lu o ffactorau, gan gynnwys aelodau bregus o'r teulu ac ofn dal COVID-19, ynghyd â iechyd meddwl a straen peidio â bod mewn amgylchedd dysgu ffurfiol ers dwy flynedd. **Amharwyd ar brofiadau addysg a dysgu plant a phobl ifanc mewn ffyrdd digynsail**, fel yr esboniodd un ymatebydd

**"Nid dim ond dwy flynedd mae'r pandemig wedi'u colli i blant, ond fwy na thebyg dwywaith hynny, oherwydd hyd y cyfnod o amser pan na fu ganddyn nhw'r gefnogaeth angenrheidiol"**

Yn y cyfamser, dywedodd yr ymatebwyr wrthyn ni fod mwy o blant yn cyflwyno gydag **anghenion dysgu ychwanegol** yn ogystal â sgiliau cymdeithasol cyfyngedig iawn o ganlyniad i **ryngweithio cymdeithasol cyfyngedig ac ysgogi'r meddwl**. Dywedodd un cyfwelai wrthyn ni eu bod yn awr, fel sefydliad, **yn dechrau gweld effaith y pandemig ar blant dwy oed**. Mae eu profiadau cyfyngedig o gymdeithasu yn ystod y pandemig neu fod oddi cartref a'r teulu yn golygu eu bod yn aml yn cymryd hwy i ymgartrefu yn y feithrinfa. Ymhlith y pryderon eraill roedd **rhieni newydd yn cael babanod yn ystod y cyfnod clo** ac yn methu cymdeithasu gyda ffrindiau, teulu a rhieni eraill newydd. Mae rhai rhieni hefyd yn pryderu am effaith hirdymor COVID-19 ar eu plant, yn enwedig

gan fod y cyfnodau cynnar hynny mor bwysig i **ddatblygiad plentyn**. Fodd bynnag, mae problem hefyd ynghylch dweud wrth blant a phobl ifanc eu bod nhw'n **'genhedlaeth a ddiystyrwyd'** (Freeman, L., 2021), a disgwrs negyddol arall ynghylch profiadau'r cenedlaethau ifancaf ar hyd y pandemig a sut bydd hyn yn effeithio ar eu rhagolygon cyflogaeth i'r dyfodol.

Mynegodd ymatebwyr bryder ynghylch **perthynas** plant a phobl ifanc **gyda'r ysgol a'u haddysg**, er enghraifft, pryderon ynghylch arholiadau, **y pwysau i 'ddal i fyny'**, a chapasiti rhieni i'w cefnogi'n academaidd. Mae'r staff yn pryderu'n arbennig am eu disgyblion Blwyddyn 11, sydd heb sefyll arholiad o'r blaen, ac **yn gyffredinol mae'r myfyrwyr i weld â llai o ddiddordeb yn eu haddysg a diffyg cymhelliad i ddysgu neu lwyddo yn yr ysgol**. Fe ddwedson nhw wrthyn ni hefyd eu bod yn disgwyl gweld perfformiad academaidd gwaeth eleni o gymharu â'r llynedd, sy'n dangos bod effeithiau COVID-19 ar addysg plant a phobl ifanc ymhell o fod drosodd. Dywedodd ymatebydd arall wrthyn ni fod

**"Pobl ifanc yn teimlo eu bod wedi colli cymaint o addysg neu gymaint o fynediad i'r mannau lle roedden nhw'n cael cyfleoedd i ddysgu, fel gwaith ieuenctid. Mae bron fel petai elfen o ddyfalu a fyddan nhw'n gallu dal i fyny a dysgu a chysylltu â'r holl ofod yna o addysg, fel roedden nhw'n gallu gwneud cyn COVID"**

Yn y cyfamser, mae dros hanner yr ymatebwyr yn pryderu am **straen, pryderon a dirywiad yn iechyd meddwl rhieni/aelodau o'r teulu** o ganlyniad i COVID-19. Dywedodd yr ymatebwyr wrthyn ni eu bod wedi delio â nifer cynyddol o atgyfeiriadau oherwydd bod mwy o blant yn cael atgyfeiriad gan ysgolion oherwydd materion iechyd meddwl, a bod y plant oedd angen cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn awr ar **restrau aros anhygoel o hir**, gan gynnwys plant sydd wedi profi hunanladdiad rhieni, rhieni yn y carchar, a rhieni sy'n delio â'u materion iechyd meddwl eu hunain.

Mae mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn pryderu ynghylch **rhagolygon cyflogaeth rhieni a'u sefyllfa ariannol; ansicrwydd ac ansefydlogrwydd cyflogaeth, a diweithdra tymor hir**. Dywedodd yr ymatebwyr wrthyn ni fod **tlodi** wedi effeithio'n sylweddol ar y teuluoedd maen nhw'n eu cefnogi, a bod hynny'n dal i ddigwydd, gyda rhai'n dweud wrthyn ni fod teuluoedd 'yn syml ddim yn ymdopi'. Yn y cyfamser mae straen pryderon ariannol, iechyd meddwl, ofn, gorbryder a gorbryder plant wedi cael effaith drychinebus ar fywyd teuluol yn y cartref. Dywedodd ein haelodau wrthyn ni eu bod, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi gweld **cynnydd digynsail mewn lefelau tlodi a niferoedd cynyddol o deuluoedd yn methu ymdopi'n ariannol,** ynghyd â **chynnydd mewn dyledion a theuluoedd yn gorfod dewis rhwng tanwydd a bwyd.** Yn ôl ein haelodau, cafodd caledi ariannol a thlodi eu gwaethygu pan **ddilewyd y cynnydd o £20 mewn Credyd Cynhwysol,** ac yn wyneb costau tanwydd ac ynni uwch, ynghyd â rhieni ac aelodau o'r teulu yn colli eu swyddi neu'n gweithio contractau oriau sero cyn y pandemig.

Yn ôl un cyfwelai, mae teuluoedd yn gorfod dewis rhwng gwres a bwyd, ac mae **rhieni'n cael eu gwthio i sefyllfaoedd lle maen nhw'n dewis bwydo eu plant yn hytrach na'u hunain.** Dywedodd cyfwelai arall wrthyn ni **fod mwy o blant bellach yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim oherwydd caledi ariannol gartref.** Mae mwy o deuluoedd yn defnyddio banciau bwyd, ac mae'r aelodau'n sôn am weld niferoedd cynyddol o deuluoedd lle mae plant heb gael eu bwydo neu lle maen nhw'n llwglyd ac yn oer. Roedd un cyfwelai hyd yn oed yn adrodd ei fod wedi gweld mwy o blant yn cuddio bwyd i fynd ag e adre i'w teuluoedd, ac yn ymwybodol o blant mewn cartrefi oer sy'n rhannu un gwely dim ond i gadw'n gynnes.

**"Beth gallwn ni weld," dywedson nhw wrthyn ni, "yw bod y plant a'r teuluoedd oedd eisoes yn wynebu argyfwng cyn y pandemig, oedd yn byw mewn tlodi neu sefyllfa andwyol wedi llithro ymhellach ar ôl eu cymheiriaid oedd mewn lleoedd mwy diogel"**

Mynegodd yr ymatebwyr bryder hefyd ynghylch y ffaith bod eu defnyddwyr gwasanaeth yn dioddef **amharu ar berthnasoedd cymdeithasol ac emosiynol**, megis yr ysgol, ffrindiau, teulu, athrawon, ac oedolion eraill cefnogol. Mynegodd nifer o'n haelodau fod **anghydraddoldebau difrifol yn y profiadau mae plant wedi'u profi gartref yn ystod y cyfnodau clo lluosog**, ac mae llawer wedi cael profiadau gwaelach nag y buasen nhw petai'r ysgolion wedi parhau ar agor.

Yn y cyfamser esboniodd ymatebwyr eraill eu bod hwythau a'u defnyddwyr gwasanaeth wedi wynebu anawsterau o ran meithrin perthnasoedd cymdeithasol ac emosiynol . Fel y soniwyd eisoes, cafwyd anawsterau ar draws y sectorau wrth **gynnal ymgysylltiad â rhai teuluoedd**, sydd yn ei dro wedi arwain at rwystrau o ran meithrin perthnasoedd diogel, llawn ymddiriedaeth rhwng darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth. Soniodd ymatebwyr eraill hefyd fod defnyddwyr gwasanaeth yn cael trafferth gyda **gorbryder ynghylch perthnasoedd**, yn ogystal â chysylltu wyneb yn wyneb eto ac ailintegreiddio i'r gymuned. Mae pryderon hefyd am y ffaith bod pobl ifanc heb rwydwaith cefnogi, a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu hintegreiddio i'r gymuned,

rhywbeth sy'n anodd ei wneud yn rhithwir.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch **diogelwch plant a phobl ifanc**, gan gynnwys mwy o bryderon ynghylch diogelu a **risgiau ar-lein**. Dywedodd un ymatebydd wrthyn ni, er bod mynediad plant a phobl ifanc i'r rhyngrwyd a'u perthynas â thechnoleg wedi bod yn bryder cynyddol o flwyddyn i flwyddyn cyn COVID-19, mae bellach yn amlwg faint o amser maen nhw wedi'i dreulio ar ffonau symudol, cyfryngau cymdeithasol a chonsolau gêmau yn ystod y pandemig, ac yn arbennig trwy'r cyfnodau clo. **Mae plant a phobl ifanc yn arddangos yr hyn roedden nhw'n ei ddisgrifio fel perthynas 'obsesiynol' gyda ffonau symudol a chonsolau gêmau**, ac maen nhw'n credu bod hynny wedi cael effaith ddifrifol ar eu hagweddau at eu haddysg a'u capasiti i ddysgu. Dywedodd ymatebydd arall wrthyn ni eu bod wedi tystio i gynnydd aruthrol mewn ecsbloetio ar-lein ar hyd y pandemig, gyda phlant yn treulio mwy o amser ar-lein heb oruchwyliaeth.

## Cwestiwn 4) Oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch eich sefydliad neu eich gwasanaeth, neu lesiant eich staff?

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn pryderu am **effaith y pandemig ar staff eu sefydliad o ran iechyd meddyliol ac emosiynol**, er enghraifft, mwy o straen a/neu bryderon, petruster neu ofn ynghylch dychwelyd i'r gweithle ar ôl cyfnod hir o weithio gartref, yn ogystal â chynnydd sylweddol yn y llwyth gwaith. Roedd adborth un ymatebydd yn datgan

**"fel aelod o staff fe welais bwysau, straen a thrallod sylweddol yn rhan gynnar i ganol Covid – gofal plant, perthnasau oedrannus/aelodau o'r teulu yn anhwylus a gwaetha'r modd yn marw o Covid"**

Dywedodd hanner yr ymatebwyr wrthyn ni hefyd eu bod yn pryderu am **gyfrifoldebau personol y staff**, fel gofal plant neu ofalu am berthynas oedrannus.

Yn y cyfamser, mynegodd bron hanner yr ymatebwyr bryderon ynghylch gallu eu sefydliad i **gael mynediad at gyllid digonol**. Yn olaf, cyfaddefodd dros chwarter o'r ymatebwyr eu bod yn pryderu a yw eu sefydliad wedi dychwelyd at ddarparu'r un lefel o gefnogaeth i'w defnyddwyr gwasanaeth â chyn y pandemig, a/neu a fydd hynny'n digwydd. Dywedodd un ymatebydd wrthyn ni

**"Mae cymaint o waith i'w wneud wrth ddod allan o bandemig. Nid yw cyllid blwyddyn gan Lywodraeth Cymru yn dda pan fydd y problemau hyn yn parhau am gryn amser"**

Ymhellach, yn ôl ymatebydd arall

**"Fel sefydliad trydydd sector, mae ein gallu i gynnal cefnogaeth ddigonol ar gyfer y sector rydyn ni'n ei gynrychioli yn dibynnu ar ein gallu i barhau i gyflogi staff cyfredol (a'r gallu i gyflogi staff ychwanegol i ymateb i'r galw cynyddol am gefnogaeth/hyfforddiant busnes). Mae ein cyllid yn aml yn fyr dymor a phan fyddwn ni'n ei dderbyn (er ein bod ni'n amlwg yn ddiolchgar) mae tuedd i gyllid barhau'n statig am flynyddoedd, sydd ddim yn adlewyrchu cynnydd mewn argostau, costau byw a chyflogau. Rydyn ni'n gweithio'n galed i gael hyd i gyllid er mwyn cyrraedd ein targed cyllido bob blwyddyn, ond mae'r amser rydyn ni'n ei dreulio yn chwilio am y cyllid hwn ac yn ymgeisio amdano yn mynd â'n hamser i ffwrdd oddi wrth gefnogaeth i'r sector ei hun"**

Adroddodd ymatebwyr eraill am bryderon ynghylch effaith **costau byw cynyddol ar aelodau staff ac anallu sefydliadau i glustogi'r effaith** oherwydd cyllid cyfyngedig ac anallu i **gynyddu cyflogau i ymdopi â'r costau cynyddol hyn**. Mae cyllid hefyd yn effeithio ar anghenion y sefydliad i ddiwallu anghenion eu defnyddwyr gwasanaeth yn briodol yn sgîl y lefelau gwael o gyllid maen nhw'n eu derbyn. Dywedodd ymatebwyr eraill wrthyn ni fod cyllid eisoes yn bryder o flwyddyn i flwyddyn, ond eu bod **bellach yn wynebu mwy fyth o gyfyngiadau ariannol.**

## Cwestiynau 5 a 6) Pa ddulliau/strategaethau gwnaeth eich sefydliad eu mabwysiadu er mwyn ymdopi â'r heriau newydd a ddaeth yn sgîl COVID-19, i sicrhau eich bod yn gallu cynnal ymgysylltiad â phlant, pobl ifanc a theuluoedd? A Pha rai o'r dulliau/strategaethau hyn, os o gwbl, bydd eich sefydliad yn parhau i'w defnyddio'n rheolaidd i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd yn y dyfodol?

Y dulliau/strategaethau mwyaf poblogaidd a fabwysiadwyd i ymdopi â'r heriau newydd a ddaeth yn sgîl y pandemig ac a ddefnyddiwyd gan 100% o'r ymatebwyr oedd y defnydd o **gyfarfodydd ar-lein a/neu ymgyngoriadau gan ddefnyddio platfformau ar-lein** megis Zoom, Microsoft Teams neu Skype.

Yr ail ddulliau/strategaethau mwyaf cyffredin a fabwysiadwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg oedd **mwy o ddefnydd o alwadau ffôn, negeseuon testun, a/neu e-bost** i gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth, a chyhoeddi **bwletinau gwybodaeth**, cylchlythyron, ac adnoddau wedi'u teilwra ar gyfer y pandemig. Honnodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod wedi darparu **pecynnau gweithgarwch ar-lein, adnoddau addysgol, a/neu ddeunyddiau iechyd meddwl a llesiant** i blant a phobl ifanc. Yn olaf, mabwysiadodd dros hanner yr ymatebwyr weminarau rhyngweithiol, sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw, adnoddau wedi'u teilwra'n unigol a hyfforddiant ar-lein.

Adroddodd yr holl ymatebwyr y byddan nhw'n parhau i gynnal cyfarfodydd a/neu ymgyngoriadau trwy ddefnyddio platfformau ar-lein. Dywedodd mwyafrif llethol yr ymatebwyr wrthyn ni y byddan nhw'n parhau i ddefnyddio galwadau ffôn, cyfryngau cymdeithasol, negeseuon testun a/neu e-bost i gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth eu sefydliad. Bydd mwy na hanner yr ymatebwyr hefyd yn parhau i ddarparu adnoddau gwybodaeth i'w defnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â phecynnau gweithgarwch ar-lein a/neu ddeunyddiau iechyd meddwl a llesiant i blant a phobl ifanc. Yn olaf, mae'r dulliau eraill y bydd hanner yr ymatebwyr yn parhau i'w defnyddio yn cynnwys darparu gweminarau rhyngweithiol, sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw, adnoddau unigol wedi'u teilwra a hyfforddiant ar-lein.

Adroddodd yr ymatebwyr

**"Rydyn ni wedi canfod bod cyflwyno hyfforddiant a gweminarau ar-lein wedi cynyddu cwmpas ein cefnogaeth a'n heffaith ac wedi hwyluso gweithwyr chwarae i fynychu yn yr hwyr ar ôl gorffen gwaith, heb ychwanegu amser teithio. Rydyn ni'n bwriadu cynnig cyfuniad o gefnogaeth wyneb yn wyneb ac o bell wrth symud ymlaen, gan gymryd i ystyriaeth ddewisiadau unigol a beth sy'n gwneud y synnwyr mwyaf o ran amser, cyllid a chapasiti". Ar yr un pryd, "Rydyn ni wedi canfod bod mynd ar-lein yn gwneud ein gwasanaethau'n fwy hygyrch a chynhwysol i lawer o grwpiau a fyddai fel arall yn cael trafferth cyfranogi"**

Ynghyd â'r dulliau a'r strategaethau hyn, roedd ein cyfweleion yn gallu rhoi cipolwg i ni ar fesurau eraill roedden nhw'n eu defnyddio i gynnal ymgysylltiad â phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- WhatsApp – soniwyd bod llawer o bobl ifanc yn hoff iawn o gyfathrebu trwy WhatsApp oherwydd ei fod yn gyflym ac yn effeithiol, ond cododd y cyfweleion bryderon oedd ganddyn nhw ynghylch GDPR, oed a chydsyniad a beth mae hynny'n ei olygu os ydych chi'n darparu gwasanaeth cyfrinachol i blant a phobl ifanc
- Llinell gymorth ddyddiol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc
- Clybiau ieuenctid a fforymau rhithwir
- Darparu pecynnau offer ymarferol ar gyfer plant a phobl ifanc i ddelio ag iselder ysbryd a gorbryder, gan gynnwys pecynnau creadigol a phecynnau llesiant
- Cysylltu plant a phobl ifanc â'i gilydd fel eu bod yn gallu cefnogi ei gilydd
- Cefnogaeth gan endidau masnachol a llywodraethau lleol i ddarparu gliniaduron, cyfrifiaduron tabled, ffonau symudol, credyd data a donglau Wi-Fi ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd
- Defnyddio cyllid i ddarparu celfi a dillad i deuluoedd
- Defnyddio'r platfform ar-lein Padlet

- Ymgyngoriadau ar-lein
- Bu un sefydliad yn cymryd rhan mewn rhaglen Panorama ynghylch cam-drin domestig i gyfleu’r neges bod eu gwasanaethau ar agor
- Sefydlu llinell ffôn gyfrinachol ar gyfer llesiant i’r staff a gwneud yn siŵr bod eu tîm seicoleg ar gael i dimau ac unigolion sy’n gweithio gyda phobl
- Modiwlau e-ddysgu a hyfforddiant ar-lein i’r staff
- Dosbarthu pecynnau bwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â meddyginiaeth ac unrhyw eitemau hanfodol eraill roedd ar deuluoedd eu hangen
- Roedd y rhai yn y sector addysg yn defnyddio Google Classroom, ac ymweliadau cartref i ddisgyblion unigol yr oedd y staff yn pryderu’n arbennig amdanynt o ran perthnasoedd/tlodi/iechyd meddwl y teulu
- Anfon hadau blodau haul allan fel bod teuluoedd yn gallu tyfu planhigion
- Dosbarthiadau coginio a darparu cynhwysion
- Gwneud pobl yn ymwybodol o’r gwasanaethau oedd ar gael ac a oedd yn dal ar waith
- Dod yn rhan fwy annatod o’r gymuned a gweithio gyda sefydliadau ac asiantaethau cymunedol eraill, megis banciau bwyd

## Cwestiwn 7) A brofwyd unrhyw rai o’r dulliau/strategaethau hyn, ond cael nad oeddent yn ddefnyddiol/effeithiol o ran cefnogi plant/pobl ifanc/teuluoedd, a pham?

Ni chafwyd bod yr holl ddulliau a strategaethau a fabwysiadwyd gan ein haelod-sefydliadau yn ddefnyddiol, ac felly ni fyddant yn parhau i gael eu mabwysiadu yn y tymor hir. Er enghraifft, mabwysiadodd sefydliad un ymatebydd fwletinau gwybodaeth, cylchlythyron ac adnoddau wedi’u teilwra ar gyfer y pandemig ar y cychwyn, ond cafwyd nad oedd y rhain yn ddefnyddiol nac yn effeithiol o ran cefnogi anghenion eu defnyddwyr gwasanaeth. Nododd un ymatebydd eu diffyg llwyddiant i ddarparu pecynnau gweithgarwch ar-lein, adnoddau addysgiadol, a/neu ddeunyddiau iechyd meddwl a llesiant i blant a phobl ifanc. Yn ôl un ymatebydd i’r arolwg,

> **“Cawson ni ein hysbysu bod y bobl ifanc yn cael eu llethu oherwydd eu bod yn derbyn gormod o wybodaeth ar ffurf diweddariadau bwletin ac yn y blaen” a “Nid yw’r nifer sy’n manteisio ar adnoddau ar-lein bob amser wedi bod mor uchel ac yr oedden ni wedi gobeithio”**

Yn yr un modd, canfu sefydliad arall fod defnyddio galwadau ffôn, negeseuon testun a/neu e-bost i gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth eu sefydliad ddim yn ddefnyddiol nac yn effeithiol, yn ogystal â defnyddio platfformau ar-lein fel Zoom/Microsoft Teams/Skype i gynnal cyfarfodydd ac ymgyngoriadau.

Adroddodd un o’n cyfweleion, er eu bod wedi gallu **gwella a chynyddu eu gwaith partneriaeth o ganlyniad i ddefnyddio platfformau ar-lein**, eu bod wedi nodi hefyd i’r staff gael bod defnydd di-dor o gyfarfodydd ar-lein yn flinedig iawn. Ymhellach, er ei fod wedi creu hyblygrwydd ac yn golygu nad oes angen i staff deithio ar gyfer cyfarfodydd, mae’r **staff wedi cael ei fod yn undonog iawn ac wedi gweld eisiau’r cyswllt wyneb yn wyneb â’u cydweithwyr**.

Adroddodd yr aelodau hefyd fod gweithio’n rhithwir yn arbennig o anodd gyda phlant mor ifanc â 5 oed, a gyda rhai plant anabl, a’i fod hefyd yn her o ran monitro iaith y corff a sicrhau bod y plant yn ddiogel. Tynnodd un cyfwelai sylw at y ffaith nad oedd cyfathrebu rhithwir gyda phlant, ac yn arbennig plant agored i niwed, bob amser yn ddefnyddiol oherwydd efallai na fydden nhw’n teimlo’n ddiogel yn datgelu cyfrinach neu wybodaeth sensitif i oedolyn oherwydd pwy allai fod yn gwrando yn y cefndir. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod sicrhau preifatrwydd i blant a phobl ifanc yn rhan hanfodol o’r gwaith roedden nhw’n ei ddarparu i’w cefnogi. Roedd y symudiadau at weithio wyneb yn wyneb wedi cynyddu ers i’r cyfyngiadau gael eu llacio.

## Cwestiwn 8) A dderbyniodd eich sefydliad unrhyw gymorth ariannol ychwanegol i helpu i ymdopi ag unrhyw heriau newydd a ddaeth i'w ran yn ystod y pandemig?

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr arolwg yn gymysg, gyda niferoedd digon cyfartal yn ymateb 'do', 'naddo' neu 'ddim yn siŵr'. Dyma ddywedodd un ymatebydd:

**"Llwyddon ni i dderbyn grant brys ychwanegol gan WCVA i'n helpu i brynu cyfarpar TG ar gyfer y plant a'r bobl ifanc rydyn ni'n gweithio gyda nhw, i'w galluogi i gael mynediad at addysg ac aelodau eu teulu a chysylltu â nhw yn ystod y cyfnodau clo... Cawson ni [hefyd] gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru"**

Defnyddiwyd cyllid gan un sefydliad

**"I barhau â'n gwaith i gefnogi'r sector gofal plant y tu allan i'r ysgol"**

Defnyddiodd sefydliad arall ei gyllid i

**"brynu gliniaduron a chyfrifiaduron tabled ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal"**

Derbyniodd sawl sefydliad roddion gan endidau masnachol fel Vodafone, John Lewis a BT i ddarparu ffonau, gliniaduron, cyfrifiaduron tabled, celfi a dillad i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Ochr yn ochr â hynny derbyniodd eraill gyfraniadau gan lywodraeth leol, oedd yn cynnwys gliniaduron a donglau Wi-Fi. Derbyniodd sefydliad arall gyllid gan Plant mewn Angen i gyflwyno pecynnau gweithgarwch.

## Cwestiwn 9) Er gwaethaf ei holl heriau, oedd y pandemig yn caniatáu unrhyw gyfleoedd i ddysgu (er enghraifft, oedd modd i chi fel sefydliad gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn ffordd fwy personol unwaith y bu'n rhaid i'r rhyngweithio â defnyddwyr gwasanaeth wyneb yn wyneb ddod i ben, neu gael ei leihau oherwydd cyfyngiadau COVID, neu a ddaethoch efallai yn ymwybodol o anghenion oedd eisoes yn bodoli gan eich defnyddwyr gwasanaeth, nad oeddech chi'n ymwybodol ohonynt o'r blaen)?

Atebodd dros 70% o'r ymatebwyr 'oedd' i'r cwestiwn hwn, gyda'r gweddill yn ateb 'ddim yn siŵr'. Ymhlith yr enghreifftiau o sut roedd y pandemig yn caniatáu cyfleoedd i ddysgu, roedd:

- Sut i ddefnyddio amser yn fwy effeithiol
- Sut i gadw mewn cysylltiad trwy gyfarfodydd rhithwir ac annog aelodau'r tîm o bob rhan o Gymru i estyn allan at ei gilydd
- Mae llawer mwy yn mynychu gweminarau/digwyddiadau rhwydweithio/sesiynau hyfforddi nawr oherwydd eu bod ar-lein ac yn llawer mwy hygyrch i'r rhai sydd â mynediad at TG
- Mae llawer o bobl ifanc yn fwy cyfforddus yn cyfranogi ar-lein, yn enwedig os yw hynny'n digwydd mewn ffordd gynhwysol ac ystyriol
- Caniatáu ar gyfer ehangu gwasanaethau
- Llai o angen teithio i fynd i gyfarfodydd, gan leihau ôl troed carbon

## Cwestiwn 10) Ydych chi'n dal i wynebu heriau/rhwystrau fel sefydliad yng nghyswllt effeithiau COVID-19, y gallech dderbyn cefnogaeth well ar eu cyfer? A Chwestiwn 11) Wrth i 2022 fynd heibio, beth yw'r prif faterion sy'n destun pryder i chi?

Atebodd dros 70% o'r ymatebwyr 'oes' i'r cwestiwn hwn, gyda'r gweddill yn ateb 'ddim yn siŵr'. Adroddodd mwyafrif o'n haelodau mai'r prif heriau roedd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn eu hwynebu ar hyn o bryd oedd c**ynnydd yng nghyfraddau tlodi a dirywiad mewn iechyd meddwl a llesiant.**

Dyma rai enghreifftiau o sut roedd ein haelodau'n teimlo y gallen nhw dderbyn cefnogaeth well:

- Gallu i wella cysylltedd â defnyddwyr gwasanaeth, gan fod llawer o bobl ifanc yn dal i brofi tlodi TG
- Help i gefnogi'r rhai sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl, gan fod y rhestrau aros yn rhy hir
- Yr angen am gronfeydd ariannu tymor hwy er mwyn ymdrin â materion a heriau penodol, yn ogystal ag ymrwymiad i gyllid ychwanegol yn y flwyddyn ariannol nesaf

Nodwyd anawsterau ariannol fel pryder i'r aelodau eu hunain, ynghyd â'r angen am gyllid tymor hir i helpu i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth, yn arbennig gan fod atgyfeiriadau wedi cynyddu oherwydd cymhlethdod cynyddol yr anghenion a gyflwynir gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae **recriwtio** hefyd yn bryder parhaus i'n haelod-sefydliadau, gyda llawer yn cael trafferth llenwi swyddi gwag ar hyn o bryd. Mae recriwtio'n anoddach fyth i'r sefydliadau hynny sy'n darparu eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Codwyd pryderon eraill ynghylch llesiant y staff sydd wedi parhau i wneud eu gorau i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth ar hyd y pandemig, gan ddelio â **chynnydd mewn llwyth gwaith a straen**, ochr yn ochr â rheoli materion gweithio gartref, addysgu eu plant eu hunain gartref, salwch yn y teulu o ganlyniad i COVID-19 a hyd yn oed brofedigaeth deuluol. Dywedodd yr aelodau wrthyn ni hefyd eu bod yn cael dychwelyd i weithio mewn systemau gwaith arferol yn dipyn o her yn gyffredinol.

Dywedodd yr ymatebwyr hefyd eu bod yn pryderu am eu **gallu cyffredinol i barhau mewn cysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth a'u gallu i gynnal y gwasanaethau roedden nhw'n eu darparu'n flaenorol**. Yn olaf, mynegodd ymatebwyr bryder ynghylch materion yn ymwneud â **pherthynas plant a phobl ifanc ag addysg a'r angen am 'ddal i fyny'**. Yn ôl ymatebwyr, mae llawer o blant a phobl ifanc yn dweud eu bod yn pryderu am geisio cwmpasu'r gwaith maen nhw wedi'i golli yn yr ysgol, er enghraifft gwersi ychwanegol a gwaith cartref ychwanegol. Mae posibilrwydd hefyd fod mwy o blant a phobl ifanc yn profi gorbryder ynghylch perfformiad a gorbryder cyffredinol ynghylch arholiadau a gwaith cwrs.

# Casgliadau

Mae ein hadroddiad yn amlygu'r heriau digynsail a wynebwyd gan ein haelod-sefydliadau ar hyd y ddwy flynedd ddiwethaf, ond gwaetha'r modd mae hefyd yn dangos bod llawer o'r heriau hyn a achoswyd gan COVID-19 yn dal yn amlwg, ac yn effeithio ar gyflwyno gwasanaethau a'r rhai sy'n derbyn y gwasanaethau hynny. Gwaethygwyd hynny ymhellach gan argyfwng parhaus costau byw.

Ar sail ein casgliadau, er y bydd oedi wrth weld rhai o effeithiau'r pandemig ar blant, pobl ifanc a theuluoedd, mae ein haelod-sefydliadau yn gweld cyfraddau cynyddol o dlodi, amddifadedd, iechyd meddwl yn gwaethygu ac oedi yn natblygiad plant ar draws y sector.

Wrth i ni symud ymlaen i estyn cwmpas y brechlynnau a dod â chyfyngiadau cymdeithasol a chyfnodau clo i ben, mae gwasanaethau iechyd meddwl o dan bwysau sylweddol, ac mae'r rhai sydd angen cefnogaeth yn wynebu rhestrau aros eithriadol o hir. Yn amlwg, yr hyn y mae'n rhaid ei gydnabod o'n canfyddiadau yw bod effeithiau'r pandemig yn parhau i gael effaith anghymesur ar fywydau'r rhai mwyaf agored i niwed.

Awdur: Helen Molloy, Cynorthwy-ydd Ymchwil, Plant yng Nghymru (gol. Sean O'Neill)

**Ariannir yr adroddiad hwn yn rhannol gan Lywodraeth Cymru. Barn yr awdur a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid yw o reidrwydd yn cynrychioli barn yr ariannydd.**

# Llyfryddiaeth

The Bevan Foundation (2021). A snapshot of poverty in winter. The Bevan Foundation [online]. Available at: https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2021/12/A-snapshot-of-poverty-in-winter-2021-.pdf

The Bevan Foundation (2022). Energy price rise. The Bevan Foundation [online]. Available at: https://www.bevanfoundation.org/news/2022/02/energy-price-rise/

Wales Governance Centre (2022). Lower income households and public services to feel the squeeze from higher inflation. Wales Governance Centre [online]. Available at: https://www.cardiff.ac.uk/news/view/2613815-lower-income-households-and-public-services-to-feel-the-squeeze-from-higher-inflation

Cardiff University (2022). Further support for households may be needed as cost-of-living squeeze continues. Cardiff University [online]. Available at: https://www.cardiff.ac.uk/news/view/2610351-further-support-for-households-may-be-needed-as-cost-of-living-squeeze-continues

Children's Commissioner for Wales (2020). Coronavirus and Me. Available at: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_EN.pdf

Elliott, L. & Partington, R. (2022). UK inflation hits 6.2%, the highest level in three decades. The Guardian [online]. Available at: https://.theguardian.com/business/2022/mar/23/uk-inflation-highest-level-in-three-decades

Freeman, L. (2021). Don't write off this generation of Covid kids. The Times [online]. Available at: https://www.thetimes.co.uk/article/dont-write-off-this-generation-of-covid-kids-r50gllzbc

Hoffman, J. A. & Miller, E. A. (2020). Addressing the Consequences of School Closure Due to COVID-19 on Children's Physical and Mental Well-Being. World Medical & Health Policy, Vol.12 (3), pp. 300-310. Available at: https://onlinelibrary.wiley.com/doi/epdf/10.1002/wmh3.365

James et al. (2021). Factors influencing wellbeing in young people during COVID-19: A survey with 6291 young people in Wales. PLOS ONE, Vol.16 (12), pp. 1-17. Available at: https://cronfa.swan.ac.uk/Record/cronfa59046

Loades et al., (2020). Rapid Systematic Review: The Impact of Social Isolation and Loneliness on the Mental Health of Children and Adolescents in the Context of COVID-19. Journal of the American Academy of Child & Adolescent Psychiatry, Vol.59 (11), pp. 1218-1239. Available at: https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC7267797/pdf/main.pdf

Reimers, F. M., (2022). Conclusions and Implications. In: Primary and Secondary Education During Covid-19 Disruptions to Educational Opportunity During a Pandemic. In: Primary and Secondary Education During Covid-19 Disruptions to Educational Opportunity During a Pandemic, Reimers, F. M (ed). [online]. Cambridge: Springer, pp. 461-475. Available at: https://link.springer.com/content/pdf/10.1007%2F978-3-030-81500-4.pdf

Senedd Research (2022). A perfect storm? Debt and the pandemic. Senedd Research [online]. Available at: https://research.senedd.wales/research-articles/a-perfect-storm-debt-and-the-pandemic/

Thorn, W. & Vincent-Lancrin, S. (2022). Education in the Time of COVID-19 in France, Ireland, the United Kingdom and the United States: The Nature and Impact of Remote Learning. In: Primary and Secondary Education During Covid-19 Disruptions to Educational Opportunity During a Pandemic, Reimers, F. M (ed). [online]. Cambridge: Springer, pp. 383-420. Available at: https://link.

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

21 Windsor Place, Cardiff CF10 3BY
02920 342 434
@ChildreninWales
info@childreninwales.org.uk

childreninwales.org.uk